


# Coridor gwyrdd i gymunedau, ymwelwyr a bywyd gwyllt ar draws Ynys Môn

Awst 2022

Rhifyn

GLASFFORDD MÔN




Ar y Stryd Fawr, gall gwelliannau o safbwynt darpariaeth ar gyfer cerdded, beicio a thir y cyhoedd arwain at **gynnydd** o 30% o ran gwerthiant mewn siopau

# 30%

Lawlor, 2015[a]

I GAERGYBI

# 13:1

13:1 yw'r 'Gymhareb Budd a Chost' ar gyfer prosiectau cerdded a beicio. Mae hyn yn golygu, ar gyfer bob **£1m** a gaiff ei wario ar gerdded a beicio, caiff **£13m** o fuddion eu dychwelyd i'r economi

Department for Transport, 2015[a]

# Y Weledigaeth




## 54%

Mae 54% o'r bobl sy'n beicio i'r gwaith yn teimlo'n **hapus** ac wedi'u **bywiogi** yn ystod eu taith

Cyclescheme, 2015[a]

# Cyflwyniad



Gweledigaeth Glasffordd Môn yw i ddatblygu coridor gwyrdd di-dor ar gyfer cerdded a beicio, a hybu bywyd gwyllt ar dirwedd ar draws Ynys Môn. Bydd y coridor yn cysylltu Niwbwrch yn y de ag Amlwch yn y gogledd, gan ddarparu llwybr hirbell ynghyd â chysylltiadau â mannau gwyrdd ar gyfer y gymuned leol. Arweinir y prosiect gan Menter Môn, ac fe'i cefnogir gan Grŵp Llywio a ffurfiwyd o randdeiliaid allweddol.


Bydd cyflenwi'r llwybr yn ymestyn llwybr 15km presennol Lôn Las Cefni rhwng Malltraeth a Llyn Cefni. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr poblogaidd hwn yn ddi-draffig, ac yn pasio trwy amrywiaeth o dirweddau, gan gynnwys Cors Ddyga sydd wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) am ei chymuned o adar sy'n bridio, ynghyd â dolydd gwlyb a chyrsiau dŵr.

Y weledigaeth yw ymestyn y llwybr i greu coridor gwyrdd ar draws Ynys Môn, sydd o fudd i gymunedau ac yn gwella'r tirweddau a'r ecosystemau y bydd yn pasio trwyddynt.

Byddai'r llwybr ar draws yr ynys yn llwybr meingefn y gallai rhwydwaith o lwybrau o ansawdd uchel ddatblygu ohono, ar draws Ynys Môn ac Afon Menai.



**Bydd y llwybr yn gwasanaethu cymunedau lleol, ymwelwyr a bywyd gwyllt.**





## YR UCHELGAIS AR GYFER GLASFFORDD MÔN

Llwybr di-draffig o fewn parc llinellog ar draws Ynys Môn i ddefnyddwyr dulliau teithio llesol o bob oedran a gallu cael cerdded a beicio. Bydd y llwybr yn darparu ar gyfer teithiau arferol trigolion yr ynys, ac yn arddangos tirwedd unigryw Ynys Môn i ymwelwyr, gan ddosbarthu buddiannau twristiaeth yn fwy cyfartal ar draws yr ynys. Bydd y parc llinellog yn creu coridor o isadeiledd gwyrdd a glas a fydd yn gallu cynyddu bioamrywiaeth trwy greu, cysylltu ac ymestyn cynefinoedd er mwyn galluogi bywyd gwyllt i symud o un lle i'r llall.

## YR ELFENNAU I'W CYFLENWI

- Llwybr o ansawdd uchel, a adeiladir yn ôl safonau dylunio Teithio Llesol, sy'n lleihau'r angen i bobl orfod croesi lonydd neu gymysgu â thraffig.
- Creu cynefinoedd a'u hadfer, gan weithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol i wella'r amgylchedd trwy blannu coed a rheoli'r tir, mewn modd sy'n cyd-fynd â'r tirweddau sensitif y mae'r llwybr yn pasio trwyddynt.
- Mannau cyhoeddus trefol newydd a gwell a gaiff eu cyd-ddylunio â chymunedau lleol i adlewyrchu diwylliant a hunaniaeth y cymunedau y mae Glasffordd Môn yn pasio trwyddynt.
- Cynnwys y gymuned i ennyn balchder a pherchnogaeth o'r llwybr a'r tirweddau naturiol, trwy ymgysylltiad cynhwysol parhaus, gan gynnwys cynnal digwyddiadau.
- Llwybrau cylchog sy'n galluogi mynediad rhwydd i fannau gwyrdd ar gyfer y gymuned leol, a chanddynt fuddion cysylltiedig o safbwynt iechyd a lles.
- Arwyddion clir a gwybodaeth hygyrch i helpu i ddod o hyd i fannau o ddiddordeb, nodweddion hanesyddol a bywyd gwyllt o amgylch y llwybr, ynghyd â'u dehongli.

# Canfod Prosiectau sy'n Flaenoriaeth ar gyfer Proses Arfarnu Glasffordd Môn




Yn Rhagfyr 2021, comisiynwyd Arup gan Menter Môn i ganfod prosiectau allweddol a allai gyfrannu tuag at y weledigaeth ar gyfer Glasffordd Môn, ynghyd â'r modd y caiff ei gyflawni. Mae'r gwaith a gwblhawyd wedi defnyddio gwaith cynharach a wnaed gan y Grŵp Llywio a'r ymgynghorydd annibynnol Michael Chown, ac mae'n ystyried y rhan o'r ffordd rhwng Niwbwrch a Llangwyllog.

Nodwyd dros 40 o brosiectau posib ar y rhan hon o'r llwybr, sy'n amrywio o ran math, lleoliad, graddfa, eu rhaglen a'u cost. Casglwyd gwybodaeth am bob prosiect o fewn cofrestr prosiectau a adolygwyd gyda'r Grŵp Llywio, gan ystyried yr amcanion o ran polisïau a'r prosiectau. Rhoddwyd saith prosiect ar y rhestr fer, ac fe'u datblygwyd i greu'r dyluniadau o'r cysyniadau a nodir yn y llyfryn hwn.

**Nodwyd dros 40 o brosiectau, gyda saith ohonynt ar y rhestr fer ar gyfer eu datblygu.**

### CANFOD PROSIECTAU

Nodwyd prosiectau o dair ffynhonnell allweddol: astudiaethau blaenorol, yn enwedig 'Adroddiad Cynnig Glasffordd Môn'[b], ymweliad safle a gynhaliwyd gan aelodau o'r Grŵp Llywio ac Arup ym mis Rhagfyr 2021, ynghyd ag astudiaeth ddesg a gwblhawyd gan Arup. Mae sawl un o'r prosiectau yn ymwneud â lleoliadau penodol, e.e. croesfannau newydd neu isadeiledd y llwybr, tra bo eraill yn fentrau neu'n fesurau sy'n berthnasol i'r llwybr cyfan, e.e. arwyddion neu gerrig camu ecolegol.





## COFRESTR PROSIECTAU

Mae'r gofrestr prosiectau'n rhoi manylion pob prosiect a nodwyd ar gyfer y rhan gychwynnol hon o'r llwybr. Y bwriad yw i'r Pwyllgor Llywio gadw'r gofrestr hon a'i diweddaru fel dogfen fyw, gan ychwanegu prosiectau newydd iddi fel y cânt eu nodi, ac fel y caiff rhannau ychwanegol o'r llwybr eu hystyried. Mae'n anochel fod y wybodaeth am brosiectau'n amrywio o ran manylder. Dylai prosiectau aros ar y gofrestr prosiectau fel cofnod o'r hyn a nodwyd ac a ystyriwyd, ond nid oes bwriad i fwrw ymlaen â phob prosiect.

## ADOLYGU PROSIECTAU

Cwblhawyd y gwaith o flaenoriaethu prosiectau gan broses arfarnu a adolygwyd gan y Grŵp Llywio. Nod y broses oedd canfod set gychwynnol o brosiectau a gaiff eu blaenoriaethu ar gyfer eu datblygu, sy'n cynrychioli amrywiaeth diddordebau'r Grŵp Llywio, ac sy'n cyd-fynd ag arferion gorau. Mae'n nodedig y gallai'r mwyafrif o'r prosiectau a nodwyd gyflenwi buddion yn erbyn amrywiaeth o feini prawf arfarnu.

Mae Glasffordd Môn yn cyd-fynd yn dda ag amrywiaeth o ddogfennau polisi, gan gynnwys:

- Rhwydwaith Teithio Llesol Ynys Môn, trwy gyflenwi nifer o rannau a nodwyd o'r Map Rhwydwaith Integredig.
- Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur o safbwynt mynd i'r afael â'r dirywiad o ran bioamrywiaeth trwy gysylltu'r isadeiledd gwyrdd a'i wella.
- Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys trwy ailgysylltu pobl â natur a gwella cyfleoedd ar gyfer datblygu ecosystem gadarn.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cysylltu cymunedau a chreu Cymru iachach, trwy wella mynediad i lwybrau teithio cynaliadwy ac amgylcheddau naturiol, sy'n creu buddion cysylltiedig o safbwynt iechyd corfforol a meddyliol.

## PROSIECTAU A FLAENORIAETHWYD

Roedd yr adolygiad o'r prosiectau wedi rhoi saith prosiect ar restr fer ar gyfer eu blaenoriaethu, y cyflwynir eu manylion yn y rhan nesaf o'r llyfryn hwn. Mae'r prosiectau'n amrywio o ran eu graddfa, eu lleoliad a'r amserlen ar gyfer eu cyflenwi. Yr hyn sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw'r buddion arwyddocaol y gallant eu cyfrannu tuag at gyflenwi'r weledigaeth ar gyfer Glasffordd Môn, ar hyn o bryd ac at y dyfodol.

# Cyd-destun Ardal yr Astudiaeth a Phrosiectau

### PROSIECTAU A FLAENORIAETHWYD

1. Pont danffordd newydd yn Ffordd Stad Ddiwydiannol Llangefni
2. Gwella cornel tanffordd yr A55 yn lle mae gwelededd yn wael
3. Gwella croesfan yr A5
4. Dolen goll canol tref Llangefni
5. Archwiliad o arwyddion y llwybr, ynghyd â'u had-drefnu a'u hadnewyddu (heb ei nodi ar y map)
6. Rhifyddion defnyddwyr ar y llwybr (heb ei nodi ar y map)
7. Llwybr gwell rhwng Niwbwrch a Phont Marcwis



### BYWYD GWYLLT A'R DIRWEDD


8. SoDdGA Cors Ddyga a llwybrau cylchol
9. Gwarchodfa Natur Nant y Pandy
10. RSPB Cors Ddyga
11. Coedwig Niwbwrch
12. Llyn Cefni a llwybrau cylchol
13. Gwarchodfa Natur Genedlaethol Tywyn Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn
14. Coedwig Gymunedol Llyn Parc Mawr



### ARDALOEDD TREFOL A MANNAU O DDIDDORDEB

15. Llangefni: Tref sirol Ynys Môn
16. Pont Marcwis: pont hanesyddol
17. Cob Malltraeth: sarn
18. Niwbwrch: pentref
19. RAF Mona
20. Gorsaf Bodorgan




RHOSMEIRCH
BODFFORDD
A5
A55
LLANGEFNI
RHOSTREHWFA
LLANGRISTIOLUS
PENTRE BERW
B4422
LLWYBR BEICIO CENEDLAETHOL
B4419
MALLTRAETH
LLANGAFFO
B4421
NIWBWRCH
LLANGELNWEN
LLWYBR ARFORDIR CYMRU
GLASFFORDD MÔN
12
9
15
4
19
1
2
3
10
8
20
16
17
14
7
18
11
13

# Tanffordd a Phont newydd yn Ffordd Stad Ddiwydiannol Llangefni

Mae llwybr presennol Lôn Las Cefni yn dilyn glannau gorllewinol yr afon, i'r de o Langefni. Yn agos i Stad Ddiwydiannol Llangefni, mae'r llwybr yn croesi'r afon dros bont gul (y mae pibell garthion pwysedd uchel yn sownd iddi) ac yn codi at groesfan Ffordd Gyswllt brysur Llangefni yn agos i gylchfan, cyn mynd yn ôl at lan dwyreiniol yr afon dros ramp, gan fynd ymlaen wedyn i gyfeiriad y de ar hyd glan ddwyreiniol yr afon.




Dyluniad y cysyniad

Byddai darparu tanffordd yn y lleoliad hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr osgoi gorfod defnyddio croesfan y ffordd trwy fynd ar lwybr mwy uniongyrchol (gan ddileu'r gwyriad 100m presennol) a heb newid lefel. Yn ogystal, byddai'r bont newydd yn lletach, ac yn cyflawni'r gofynion cymwys. Byddai'r dyluniad arfaethedig yn gofyn am symud y bibell garthion pwysedd uchel i groesfan ddynodedig ar wahân ar gyfer y bibell, i fyny'r afon.

Caiff amrywiaeth y planhigion dŵr a geir ar yr ymylon ar hyn o bryd ei hadfer a'i gwella o gwmpas y danffordd, i ddarparu rhywogaethau o flodau gwyllt brodorol sy'n addas ar gyfer peillwyr a llygod y dŵr sy'n chwilota am fwyd (arvicola amphibius). Dylai'r rhywogaethau a ddewisir gyd-fynd â'r rheiny a nodir yn y disgrifiad o'r SoDdGA, a leolir ymhellach i'r de. O safbwynt diogelwch a hygyrchedd, gyda'i gilydd, byddai'r mesurau'n cyflenwi buddion i ddefnyddwyr o bob oedran a gallu, ynghyd â darparu llwybr di-dor er budd y dirwedd a byd natur.



Y bont bresennol

O fewn dyluniad manwl y cynllun, byddai angen cynnwys cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd[c] (FRAP) gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ganfod effaith y cynigion ar yr afon. Byddai angen gofyn i Dŵr Cymru wneud gwaith i symud y bibell garthion, a gwneud cais wedyn ar gyfer y gwaith hwnnw[d].



Y bont bresennol

# Agor Cornel Tanffordd yr A55 yn Lle Mae'r Gwelededd yn Wael

Mae'r llwybr presennol yn pasio o dan ffordd ddeuol yr A55 trwy danffordd a rennir ag Afon Cefni. Fe'i lleolir ar lwybr uwch rhwng glan ddwyreiniol yr afon ac ategwaith y bont. Ystyrir bod lled y llwybr yn ddigonol ar gyfer y nifer bresennol o ddefnyddwyr ond, i'r gogledd o'r danffordd, ceir cornel siarp yn lle mae'r gwelededd yn wael[e], sy'n amharu cryn dipyn ar ei defnydd gan feicwyr. Gallai beryglu diogelwch defnyddwyr sy'n symud yn groes i'w gilydd os ydynt yn dod wyneb yn wyneb yn y fan hon.



Dyluniad y cysyniad

© Arup

Byddai'r prosiect hwn yn agor y gornel o fewn hyd a lled y glannau presennol er mwyn gwella'r profiad i ddefnyddwyr ynghyd â'u diogelwch (gan gynnwys diogelwch personol). Caiff y man diddefnydd hwn yn y gornel, yn agos i'r danffordd, ei ddefnyddio i blannu cymysgedd o brysgwydd a/neu rywogaethau blodau gwyllt brodorol, er mwyn cysylltu â chynefinoedd amgylchynol ar gyfer adar sy'n nythu, ynghyd ag infertebratau, gan gynnwys peillwyr.



Y danffordd bresennol

**NODWYD DAU OPSIWN POSIB O RAN ADEILADU I GYFLAWNI HYN:**

1. Ymestyn a mewnlenwi'r llwybr: adeiladu wal allanol newydd a mewnlenwi; neu
2. Adeiledd cantilifer ag wyneb a fyddai'n golygu adeiladu adeiledd yn sownd i waliau cynnal y llwybr presennol, ynghyd â rhoi wyneb arno. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod llai o le yn cael ei golli o fewn sianel yr afon.

| | Dull Adeiladu | Gofynion o ran Asesu'r Cynllun |
|---|---|---|
| **Ymestyn a mewnlenwi'r llwybr** | • Byddai angen gwneud gwaith cyflawn ar lan Afon Cefni i'w gwneud yn ddigon cadarn ar gyfer codi wal allanol newydd.<br>• Creu wal allanol (tua 20m) rhwng mannau ar ffin llwybr presennol Lôn Las Cefni. Gellid adeiladu'r wal trwy ddefnyddio pyst a dalennau ('sheet piles'), bôn- waliau ('stem walls') concrit wedi'u rhag-gastio neu eu hadeiladu yn y fan a'r lle, neu gaergewyll ('gabion baskets').<br>• Llecyn tua 30 milltir sgwâr wedi ei ffinio â deunydd mewnlenwi gydag ôl-lenwad adeileddol.<br>• Llecyn ag wyneb wedi'i fewnlenwi.<br>• Adfer y canllawiau. | • Archwilio cyfansoddiad a sefydlogrwydd glan bresennol yr afon ar gyfer pennu manylion y gwaith adeiladu.<br>• Asesiad Canlyniadau Llifogydd[f] (FCA) o ganlyniad i'r deunydd mewnlenwi (tua 60 m3) ynghyd â cholli ardal storio dŵr llifogydd a'r cyfyngiad ar lif y dŵr o dan y bont.<br>• Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd[c] (FRAP) mewn perthynas â gwaith adeiladu.<br>• Mae'n debygol y bydd angen Asesiad Sgwriad ('Scour Assessment') i asesu cadernid adeileddau mewn llifogydd.<br>• Asesiad ecolegol o ran yr effaith ar gynefin yr afon. Cymeradwyaeth gan NMWTRA sy'n gyfrifol am reoli a chynnal yr A55.<br>• Cymeradwyaeth gan NMWTRA sy'n gyfrifol am reoli a chynnal yr A55.<br>• Cyfleustodau tanddaearol. |
| **Adeiledd cantilifer ag wyneb** | • Adeiladu sylfaen/tanadeiledd o fewn hyd a lled y llwybr presennol (naill ai pyst â diamedr bach neu sylfeini 'spread footings').<br>• Cloddio o flaen y wal bresennol i sicrhau bod digon o le ar gyfer dyfnder adeiledd y llwybr pren.<br>• Gosod yr adeiledd (trawstiau cantilifer a deunydd wyneb).<br>• Rhoi gorffeniad ac adfer y canllawiau. | |

# Gwelliannau o ran y Groesfan ar Wyneb yr A5

Croesfan yr A5 yw'r unig leoliad rhwng Malltraeth a Llangefni lle mae'r llwybr presennol yn croesi ffordd gyflym. Yn lle mae'r llwybr yn dynesu at yr A5, ar y naill ochr a'r llall, cymhlethir pethau gan gorneli tynn a rhwystrau y mae'n debyg y cawsant eu gosod er diogelwch, ond sy'n amharu ar y gallu i groesi'n syth ar draws yr A5, yn enwedig o ran beicwyr a grwpiau. O ganlyniad, ceir croesfan sy'n anodd i'w defnyddio, ac sy'n golygu ei fod yn cymryd mwy o amser i ddefnyddwyr groesi a'u bod yn agored i draffig sy'n teithio'n gyflym. Hefyd, mae'r rhwystrau'n ei wneud yn anodd i feicwyr droi oddi ar yr A5 i'r llwybr.



Croesfan bresennol

Ni chaiff ei ystyried yn ymarferol i ddarparu croesfan aml-lefel yn y tymor byr i ganolig oherwydd ffactorau lleol (yn enwedig lefelau'r afon a dynodiad SoDdGA Cors Ddyga). Felly, nodwyd fod gwelliannau i'r groesfan bresennol ar y wyneb yn flaenoriaeth ar gyfer gwella diogelwch a'r profiad i ddefnyddwyr o bob oedran a gallu.

**YR ELFENNAU I'W CYFLENWI**


- Lleihau'r amser a gymerir i groesi'r A5.
- Lleihau nifer y corneli a'r rhwystrau wrth ddynesu at yr A5, sy'n creu anawsterau ac yn golygu nad yw defnyddwyr yn canolbwyntio gystal ag y gallent wrth geisio croesi'r A5 yn ddiogel.
- Gwneud gyrwyr a defnyddwyr sy'n cerdded a beicio yn fwy ymwybodol o leoliad y groesfan.

Wrth ddatblygu'r dyluniad o'r cysyniad ar gyfer y groesfan, ystyriwyd amrywiaeth o opsiynau. O ran y dyluniad arfaethedig a ddangosir isod, mae ganddo'r elfennau dylunio allweddol a ganlyn, a ddyluniwyd yn ôl y canllawiau a nodir yng Nghanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru[g]:

**Croesfan berpendicwlar dros yr A5:** mae'r groesfan rhwng y cyrbiau isel, nad yw'n croesi'n syth ar draws y ffordd, wedi'i halinio a'i lledu. Cynigir rhoi gorffeniad lliw ar y wyneb i amlygu lleoliad y groesfan ar gerbytffordd yr A5.

**Cael gwared â'r rhwystrau:** Bwriedir adolygu'r sefyllfa o ran y rhwystrau ar y naill ochr i'r ffordd. I'r de, mae'r gornel siarp o ganlyniad i drefniant y rhwystrau diogelwch i gerbydau wedi'i dileu trwy greu bwlch yn y rhwystrau, a gosod rhwystr newydd y tu ôl i'r llwybr. Caiff y ramp ddynesu at yr A5 ei ailbroffilio hefyd i raddiant o 1:20 neu lai. I'r gogledd, caiff y canllaw presennol a'r bolard eu tynnu a'r bwlch yn y wal ei ledu, a chaiff y troadau tynn eu lleihau. Mae'r mesurau hyn yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr y llwybr ddynesu at yr A5, ynghyd â'i chroesi a'i gadael yr ochr arall.


**Arwyddion:** Caiff arwyddion ar gyfer gyrwyr ar yr A5 eu gosod ymhellach yn ôl, a bydd platiau pellter yn darparu digon o le i yrwyr arafu os oes angen. Caiff y llinell ganol bresennol ei newid i linellau gwyn dwbl, er mwyn atal cerbydau rhag goddiweddyd yn rhy agos at y groesfan. Cyflwynir arwyddion a marciau i rybuddio defnyddwyr y llwybr yn lle mae'n dynesu at yr A5.




1. Llinell wen ddwbl i ddangos i ddefnyddwyr y ffordd na ddylent oddiweddyd.
2. Palmantu man aros y safle bws i ganiatáu mynediad haws i ddefnyddwyr bysiau.
3. Bydd marciau 'ARAF/SLOW' ac arwyddion 'Ildiwch', yn lle mae'r llwybr yn dynesu at y ffordd, yn rhybuddio defnyddwyr eu bod yn nesáu at y ffordd.
4. Marciau ac arwyddion 'Ildiwch'.
5. Gosod rhwystr diogelwch yn lle'r ffens.
6. Addasu'r troadau wrth ddynesu at y ffordd i'w gwneud yn rhwyddach i ddefnyddwyr gyrraedd y groesfan.
7. Symud y ddynesfa i'r de i fod yn union gyferbyn â'r ddynesfa i'r gogledd.
8. Cyrbiau isel yn y groesfan.
9. Tynnu'r bolard a'r rhwystrau a lledu'r palmant ar ymyl y ffordd i ganiatáu i ddefnyddwyr adael y gerbytffordd yn gyflym.
10. Bydd wyneb cyferbyniol ar draws y groesfan yn weladwy o bell i ddefnyddwyr y ffordd.
11. Lledu'r bwlch yn y wal i wneud y trac beics yn lletach.
12. Y posibilrwydd o gael un bolard i atal mynediad i gerbydau.

# Dolen Goll Canol Tref Llangefni

Ar hyn o bryd, ceir bwlch yn y llwybr yng nghanol tref Llangefni, rhwng maes parcio Neuadd y Dref a Ffordd Cae Sêl. Mae'r toriad hwn, o ran y ddarpariaeth o lwybr clir, yn creu dryswch i ddefnyddwyr ac yn eu hannog i beidio â defnyddio dulliau teithio llesol (yn enwedig beicio) yn Llangefni, sy'n debygol o fod yn darddiad neu'n gyrchfan i lawer sy'n teithio, yn siopa, neu'n mynd i'r ysgol ac ati. Mae'r prosiect yn cynnig ailgyfeirio'r llwybr sydd wedi'i arwyddo i gadw at lan ddwyreiniol Afon Cefni yn ystod gwaith gwella a lledaenu ar gyfer llwybr presennol. Ystyrir bod gwella'r llwybr hwn yn cynnig y cyfle gorau i sefydlu llwybr di-dor o ansawdd uchel, sy'n haws i'w ddilyn, ac yn osgoi'r angen i fynd trwy draffig a gorfod defnyddio cyffordd brysur ym maes parcio Neuadd y Dref.




Mae gwaith gwella wedi'i drefnu ar gyfer y llwybr ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys gwaith ail-wynebu, ynghyd â chreu man cyhoeddus gyda seddau yn edrych dros Afon Cefni. Byddai'r dyluniad arfaethedig yn datblygu hyn ymhellach trwy ei wneud yn o leiaf 3m o ran lled. I'r de, byddai'r llwybr yn cysylltu â'r llwybr presennol, ac i'r gogledd mae'r cynigion yn cysylltu â llwybr beiciau/troedffordd ar Stryd y Bont. Bydd yn bwysig diwygio'r arwyddion mewn perthynas â'r llwybr presennol i sicrhau y darperir cyfarwyddiadau i gyfleusterau lleol, er hwylustod i ddefnyddwyr a buddion economaidd o ran yr ardal leol. Llangefni yw'r brif dref ar y llwybr, sy'n cynnig lluniaeth a chyfleusterau i ddefnyddwyr hamdden, ac sy'n darddiad/cyrchfan debygol o ran teithiau amlbwrpas ar gyfer mynd i'r gwaith neu i siopa er enghraifft.

Bydd angen dyluniad manwl i benderfynu p'un a yw'n well lledu'r llwybr i'r gorllewin (glan yr afon gyda choed/prysgwydd ac effeithiau posibl o ran llifogydd)[c], neu i'r dwyrain (effeithiau posibl ar dir trydydd parti).

Dylid archwilio syniadau i ymgorffori plannu coed ar y stryd hefyd ar hyd y rhan hon, i ddarparu cysgod, i leihau effaith yr Ynys Wres Drefol (UHI) ac i ddarparu rhagor o gynefinoedd i adar sy'n nythu, ystlumod sy'n clwydo ac infertebratau yng nghanol y dref.




## GWELLA'R LLWYBR I'R DWYRAIN O AFON CEFNI



A

Llwybr a rennir i'r de o Stryd y Bont a chanddo fan croesi sy'n addas ar gyfer dulliau teithio llesol. Rhywfaint o waith lledu o ran llecyn o darmac.



B

Mae'r llwybr presennol yn cael ei wella ar hyn o bryd, sy'n cynnwys gwaith atgyweirio ffens a lledu. Gwneir rhagor o waith i ledu'r llwybr er mwyn cyflawni safonau dylunio teithio llesol.



C

Mae'r llwybr presennol yn culhau rhwng siop Iceland a'r afon. Mae angen gwneud gwaith i'w ledaenu. Cyfyngiadau posibl o ran llifogydd a pherchnogaeth y tir.



D

Y bont bresennol. Caiff arwyddion eu hail-alinio ar gyfer y llwybr newydd. Lledaenu'r ffordd bresennol i gyflawni safonau dylunio teithio llesol.

# Archwiliad o arwyddion y llwybr, ynghyd â'u had- drefnu a'u hadnewyddu

Bydd y prosiect hwn yn darparu gwell arwyddion ar y llwybr, sy'n elfen ganolog o brofiad defnyddwyr. Mae arwyddion yn bwysig hefyd ar gyfer hyrwyddo'r llwybr i ddarpar ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd, mae'r arwyddion wedi datblygu mewn modd graddol a thameidiog. Tra bo llawer o'r arwyddion yn ddefnyddiol, ceir bylchau ac anghysondebau hefyd y bydd y prosiect hwn yn eu targedu er mwyn cael arwyddion defnyddiol sy'n gymorth i ddangos y ffordd a darganfod yr ardal.



Enghraifft o arwyddion presennol

© Arup


Terfyniad ('finial') wedi'i frandio ar ben arwyddion, fel modd o'u huno o dan frand cyffredin.

© Arup

## ARCHWILIAD O ARWYDDION

Pwrpas yr archwiliad o arwyddion fyddai cael deall y sefyllfa bresennol o ran lleoliad yr arwyddion, y cyrchfannau/cyfleusterau a arwyddwyd, ynghyd â chyflwr yr arwyddion. Dylid cipio'r wybodaeth mewn cronfa ddata GIS y gall yr awdurdod lleol ei defnyddio eisoes ar gyfer arwyddion ar y briffordd.

## DYLUNIAD YR ARWYDDION


Dylai'r arwyddion ar y llwybr gyd-fynd â llwybrau eraill a chyflawni'r safonau gofynnol[h]. Mae'r mwyafrif o'r arwyddion glas a gwyn (gweler y lluniau) yn cydymffurfio eisoes, a gellir eu cadw. Dylid ymgorffori brandio ar gyfer llwybrau penodol trwy ddefnyddio terfyniad ('finial') wedi'i frandio, y gellir ei ychwanegu ar ben arwyddion newydd a rhai presennol, fel modd o'u hadnabod a'u huno o dan frand cyffredin.

## AD-DREFNU ARWYDDION

Caiff y gwaith o ran ad-drefnu arwyddion ei lywio gan yr archwiliad, a gall gynnwys dileu arwyddion yn lle maent yn ychwanegu at greu blerwch ymhlith arwyddion eraill. Dylai'r gwaith ad-drefnu ystyried cyflwr arwyddion hefyd, ynghyd â ph'un a yw arwyddion a gwybodaeth o safbwynt dehongli yn anghyson â'i gilydd, neu eu bod mewn cyflwr gwael ac y dylid eu dileu.

## GWAITH ADNEWYDDU A CHYNNAL ARWYDDION

Y cam terfynol a pharhaus fydd gosod yr arwyddion a nodwyd yn yr archwiliad, ynghyd â sicrhau bod yr holl arwyddion yn rhan o waith cynnal a chadw parhaus, fel y byddent o ran arwyddion priffyrdd. Gallai ceidwaid gwirfoddol chwarae rôl bwysig o ran canfod rhai sydd angen gwaith cynnal.



# Rhifyddion Defnyddwyr ar y Llwybr

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â gosod rhifyddion defnyddwyr mewn lleoliadau allweddol ar hyd y llwybr, i gael gwell dealltwriaeth o'r modd y'i defnyddir yn nhermau:

- Nifer y defnyddwyr mewn rhannau gwahanol o'r llwybr
- Y niferoedd o ran rhai sy'n cerdded neu'n beicio ar y llwybr
- Pryd y bydd pobl yn defnyddio'r llwybr yn ystod y dydd, o wythnos i wythnos, neu yn ystod y flwyddyn

Gall gwybodaeth o ran niferoedd defnyddwyr lywio'r gwaith o safbwynt datblygu'r llwybr, ynghyd â monitro'r modd y caiff ei ddefnyddio, a gellir ei defnyddio i gefnogi ceisiadau am gyllid at y dyfodol.

**O RAN Y RHAN O'R LLWYBR RHWNG NIWBWRCH A LLYN CEFNI, NODWYD PUM LLEOLIAD AR GYFER GOSOD RHIFYDDION DEFNYDDWYR:**

1. Cob Malltraeth
2. Rhwng yr A5 a Phont Marcwis
3. Yn gyfagos i Afon Cefni ger Ffordd Gyswllt Llangefni
4. Ffordd Cae Sêl, Llangefni
5. O fewn Gwarchodfa Natur Nant y Pandy

**O RAN DEWIS RHIFYDDION, YSTYRIR MAI'R PRIF OFYNION YW:**

- Gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr (cerddwyr/beicwyr)
- Cywirdeb
- Bod yn ddibynadwy ac yn gryf, ac yn gofyn am gyn lleied o waith cynnal a chadw â phosib
- Yn anymwthiol o safbwynt gweledol mewn lleoliadau sensitif o ran yr amgylchedd
- Yn rhwydd i'w gosod heb fod angen prif gyflenwad trydan
- Darpariaeth ar gyfer monitro o bell




Mewn ardaloedd trefol, dylid rhoi ystyriaeth i rifyddion 'totem' gweladwy hefyd, i hyrwyddo teithio llesol.

| Cyflenwr | Model |
|---|---|
| Eco-Counter | Permanent ZELT |
| | Urban MULTI |
| MetroCount | RidePod BP |
| Q-Free | Hi-TRAC CMU |
| Cycledata | Signum |



# Gwella'r Llwybr a'i Ymestyn o Bont Marcwis i Niwbwrch

Mae llwybr presennol Lôn Las Cefni bron yn gwbl ddi-draffig o Lyn Cefni i Bont Marcwis, sy'n rhan allweddol o'i apêl o safbwynt llawer o ddefnyddwyr. O Bont Marcwis, mae'n dilyn isffyrdd i gyfeiriad y de, hyd at derfyn y llwybr presennol ym Malltraeth. Mae'r prosiect hwn yn ystyried y modd y gellid gwella'r rhan hon, gan ei gwneud yn ddi-draffig a'i hymestyn i Niwbwrch. Byddai'r estyniad yn cysylltu'r gymuned, mannau gwyrdd a chyrchfan dwristiaeth allweddol Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Choedwig Niwbwrch gyda mannau eraill ar y llwybr.

Caiff yr argymhellion a nodir eu llywio gan waith a gwblhawyd gan yr ymgynghorydd annibynnol Michael Chown, yn Chwefror 2022, o fewn tair rhan a ddogfennir yn y gwaith hwnnw.

### 1. PONT MARCWIS I FALLTRAETH A i B (tua 3km)

O Bont Marcwis, mae'r llwybr presennol yn croesi Afon Cefni ac yn dilyn yr isffordd ar y lan ogleddol. Er na cheir llawer o draffig, mae'r gerbytffordd yn gul, a byddai'r lle sydd ar gael ar y brifffordd yn creu her o safbwynt cyflenwi cyfleusterau di-dor, ar wahân, i feicwyr, neu byddai'n cyfyngu ar fynediad. Er mwyn cadw cymeriad y llwybr presennol, cynigir y dylid symud y llwybr i ochr ddeheuol Afon Cefni, gan uwchraddio hawl tramwy presennol y llwybr i lwybr a rennir a chanddo wyneb caled, y byddai'n o leiaf 3m o ran lled (gweler DE403)[i].


### 2. MALLTRAETH I FAES PARCIO PEN COB B i C (tua 1.7km)


Ym Malltraeth, byddai'r llwybr yn croesi'r A4080 (cyfyngiad cyflymder 30mya) gan ddefnyddio croesfan gyfochrog ar gyfer cerddwyr a beicwyr (DE611)[i], ac yn mynd ymlaen ar Gob Malltraeth trwy fynedfa wedi'i symleiddio. Mae'r cob yn llwybr di- draffig sy'n bodoli eisoes, a chanddo wyneb wedi'i selio, ond dylid archwilio'r potensial o ran ei ledaenu i fod yn o leiaf 3m o ran lled, o un pen i'r llall.

### 3. MAES PARCIO PEN COB I NIWBWRCH C i D (tua 2.1km)

Byddai gwaith yng nghyffiniau'r maes parcio i gysylltu llwybrau presennol i gyfeiriad y gogledd a'r de yn fuddiol, ac yn gwneud y llwybr yn fwy cyflawn hyd at y fynedfa i Lyn Parc Mawr. Rhwng y lleoliad hwn a chyrion gorllewinol Niwbwrch o fewn coridor y brifffordd, ceir lle o fewn coridor mabwysiedig y brifffordd i ddarparu trac beics cyflawn sydd wedi'i wahanu o ffordd yr A4080, sy'n dilyn y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol. O gyrion gorllewinol Niwbwrch i'r gyffordd â Rhodeabach, ceir potensial, trwy waith sylweddol ar y brifffordd, i ddilyn y llwybr ar wahân ymlaen i'r de o'r A4080. Ond yn y fan hon, mae'r coridor yn culhau a gellid defnyddio cyfyngiad cyflymder is, ynghyd â dyluniad stryd tawel/stryd beiciau (DE205/206)[i] i gysylltu'r llwybr â chanol pentref Niwbwrch.

Yn lle y caiff llwybr ei symud, dylid ystyried ymgorffori gwaith plannu yn y dirwedd, os yn bosib ac yn briodol. Yn y rhan hon, ni ddylid ond ystyried plannu coed yn yr ardaloedd mwy trefol, neu fel estyniad i'r llinell goed bresennol ac ardaloedd o goetir, i ddarparu cysgod i ddefnyddwyr y llwybr ynghyd â darparu cynefinoedd i ystlumod, adar ac infertebratau, gan hefyd gyfrannu at y nod o blannu mwy o goed. Mewn mannau eraill ar hyd y llwybr, dylid rhoi blaenoriaeth i blannu blodau gwyllt, cymysgedd o brysgwydd a rhywogaethau sy'n tyfu ar dwyni, i sicrhau bod y planhigion yn cyd-fynd â natur y dirwedd agored amgylchynol, gyda sylw arbennig i'r rhywogaethau botanegol hynny y cyfeirir atynt o fewn y disgrifiadau o SoDdGA Cob Malltraeth a SoDdGA Tywyn Niwbwrch.




Llwybr di-draffig i ffwrdd o’r ffordd



Llwybr di-draffig ger y ffordd




Llwybr ar y ffordd mewn parth 20mya

ASTUDIAETH ACHOS 1

# Connswater Community Greenway, Belfast

Mae Connswater Community Greenway wedi creu parc llinellog naw cilomedr o hyd sy'n cysylltu'r boblogaeth leol ag amwynderau yn Nwyrain Belfast. Mae 'Living Landmarks' yn gynllun amlddefnydd sydd wedi cyflenwi afonydd glanach, pontydd newydd, mannau gwyrdd/agored gwell, mesurau lliniaru llifogydd ar gyfer yr ardal leol, ynghyd â 16 cilomedr o lwybrau cerdded a beicio di-draffig.

## FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Cwblhawyd y cam cyntaf yn 2014, cafodd yr ail gam ei gwblhau yn 2017
- 26 o bontydd a chroesfannau wedi'u hadeiladu o'r newydd neu wedi'u gwella
- Mae Greenway yn cysylltu 23 o ysgolion a cholegau
- Hybiau ar gyfer addysg trwy fannau dehongli a llwybrau twristiaeth a threftadaeth
- Creu coridor bywyd gwyllt o Belfast Lough i Castlereagh Hills
- Creu man ar gyfer cynnal digwyddiadau yn C.S. Lewis Square, gyda chapasiti ar gyfer 2,500 o bobl
- Cynyddu capasiti o ran yr afon, arafu llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd, sy'n cynnwys 5km o waliau amddiffyn rhag llifogydd ynghyd ag argloddiau, sy'n helpu i leihau llifogydd ar gyfer 1,700 o eiddo ar hyd y Greenway.
- Cyfrifodd ymchwil a gwblhawyd 'Gymhareb Budd a Chost' yn yr ystod 2.88 i 5.81 (h.y. am bob £1.00 a fuddsoddir byddai dychweliad o £2.88-£5.81)[i].



© Arup

Mae Connswater Community Greenway yn dirnod byw ac yn brosiect i'w etifeddu a'i fwynhau gan drigolion Belfast a thu hwnt. Roedd ymgynghorwyr Arup wedi gweithio'n agos â phenseiri tirwedd ac ymgynghorwyr costau i sicrhau'r canlyniadau gorau o ran hygyrchedd, estheteg a gwerth am arian yn gyffredinol, trwy gydol y cyfnod dylunio. Mae'r cynllun yn cynnwys llwybrau pren i ddod â phobl yn nes at yr afon, rifflau graean i wella ansawdd yr afon, ynghyd â datblygu Hollywood Arches i greu man digwyddiadau mawr o fewn tir y cyhoedd, o dan thema C.S. Lewis a anwyd yn yr ardal.


© Arup

Mae'r Greenway wedi creu parcdir bywiog, deniadol, diogel a hygyrch ar gyfer gweithgareddau hamdden, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Mae o wedi gwella ansawdd bywyd 40,000 o breswylwyr lleol, ynghyd â disgyblion a myfyrwyr, ymwelwyr a thwristiaid, a'r rheiny sy'n byw yn nwyrain Belfast ac sy'n buddsoddi yno. Mae'r rhwydwaith o barciau gwyrdd llinellog yn cysylltu pobl â'r parciau, byd natur, cyfleusterau hamdden, busnes, canolfannau siopa, ysgolion a cholegau, gan wneud teithio cynaliadwy yn ddewis naturiol ar gyfer llawer o deithiau dyddiol.

Mae'r Greenway wedi cyflawni gwelliannau uniongyrchol o ran yr amgylchedd byw, wedi adfer amwynder gwerthfawr i bobl leol, ac wedi darparu cyfleoedd ar gyfer gwell iechyd a lles mewn ardaloedd canol dinas. Mae'r prosiect yn gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygu o safbwynt ffisegol ac economaidd, ac yn gwella mynediad a chysylltiadau ar gyfer cymunedau lleol i fannau gwyrdd agored, gan annog mwy o bobl i gerdded a beicio, sy'n creu buddion cysylltiedig o ran iechyd cyhoeddus a'r amgylchedd.

### PERTHNASEDD A CHYFLEOEDD O RAN GLASFFORDD MÔN

- Mae'r Greenway yn cyflenwi buddion i ddefnyddwyr, bywyd gwyllt a'r economi
- Mae cysylltiadau rhwng cymunedau yn darparu llwybrau defnyddiol ar gyfer teithiau arferol
- Mae monitro buddion y Greenway, gan gynnwys niferoedd ei ddefnyddwyr, yn darparu cyfiawnhad ar gyfer cynlluniau tebyg

ASTUDIAETH ACHOS 2

# Wye Valley Greenway

Mae Wye Valley Greenway yn llwybr wyth cilomedr o hyd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy Isaf a grëwyd gan y grŵp Greenways and Cycleroutes ar lwybr hen Reilffordd Dyffryn Gwy. Wedi'i agor yn 2021, mae'r llwybr yn cysylltu Sedbury (ger Cas-gwent) a Thyndyrn, ac yn cynnig modd cynaliadwy i ymweld â Dyffryn Gwy trwy gerdded neu feicio. Mae'r llwybr yn cynnwys tramwyfa trwy dwnnel ysblennydd Tidenham, sydd ar agor yn ystod misoedd yr haf yn unig oherwydd yr ystlumod sy'n gaeafgysgu yn y twnnel ym misoedd y gaeaf.

### FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Mae Twnnel Tidenham, yr hiraf ond un ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, ar agor yn ystod y dydd o 1af Ebrill i 30ain Medi
- Mae arwyddion ar y llwybr yn darparu'r llwybrau amgen i gerddwyr/beicwyr eu defnyddio yn y gaeaf i osgoi'r twnnel pan fydd ar gau
- Roedd gallu defnyddio'r llwybr i deithio'n ddiogel i'r ysgol yn rhan ganolog o'i ddyluniad
- Mae'r llwybr yn cysylltu â'r Canolfan Deifio a Gweithgareddau Genedlaethol ('National Diving and Activity Centre'), Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Wyedean ynghyd â Thyndyrn, gan gynnwys y gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, Abaty Tyndyrn
- Roedd y gwaith yn cynnwys wynebu, goleuadau, meinciau, arwyddion, blychau i ystlumod/pathewod, gwaith plannu helaeth, ynghyd â phont dros yr A48



'Wye Valley Greenway designed by John Grimshaw, Company Engineer, Greenways and Cycleroutes'.

Mae'r llwybr yn darparu dull teithio diogel a chynaliadwy sy'n cysylltu cymunedau. Mae o hefyd yn ychwanegu at yr hyn sydd gan Ddyffryn Gwy Isaf i'w gynnig o ran twristiaeth, sy'n ysbrydoli pobl i fwynhau'r dirwedd ar droed ac ar feic.



Wye Valley Greenway designed by John Grimshaw, Company Engineer, Greenways and Cycleroutes'.

Datblygwyd y prosiect trwy ymrwymo gwirfoddolwyr o'r gymuned gan greu ymdeimlad cryf o gymuned o amgylch y llwybr, a sicrhau bod y llwybr yn darparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr. Rhwng Rhagfyr 2020 ac Ebrill 2021, roedd mwy na 70 o wirfoddolwyr wedi cyfrannu dros 300 diwrnod o waith. Cafodd y llwybr ei fabwysiadu wedyn gan wirfoddolwyr lleol sy'n cynnal a chadw'r llwybr ac yn agor/cau giatiau'r twnnel er budd y boblogaeth o ystlumod. Roedd bywyd gwyllt lleol yn brif ystyriaeth o ran gwaith adeiladu. Cytunwyd ar welliannau ar gyfer ystlumod gyda Natural England, sy'n cynnwys atal y drafftiau yn y gwagle o fewn toeau, gosod blychau ystlumod, cau cilfachau â brics a gosod bafflau i greu lleoedd cysgodol i aeafgysgu.

Mae'r Llwybr yn ymgorffori'r Floral Mile, sef prosiect bioamrywiaeth sy'n ceisio troi rhan o'r llwybr, sydd wedi'i chreithio'n ddrwg a'i hesgeuluso'n flaenorol, yn arddangosfa o flodau gwyllt Prydeinig, sy'n canolbwyntio ar rywogaethau sy'n frodorol i'r ardal leol.

## PERTHNASEDD A CHYFLEOEDD AR GYFER GLASFFORDD MÔN

- Mae'r Llwybr yn ymgorffori amrywiaeth o elfennau sy'n gwella ac yn amddiffyn bywyd gwyllt yn yr ardal leol
- Adeiladwyd y llwybr yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr sydd wedi creu perchnogaeth gymunedol o'r llwybr, a fydd yn parhau at y dyfodol
- Mae'r llwybr yn darparu ar gyfer teithiau arferol bob dydd, ynghyd â gofynion hamdden a thwristiaeth

ASTUDIAETH ACHOS 3

# Strawberry Line, Cheddar

Daw enw'r Strawberry Line o'r llwythi a gariwyd gan y llinell reilffordd flaenorol hon o gaeau mefus Cheddar. Mae'r llwybr presennol yn cysylltu Yatton â Cheddar, ond ceir cynigion i'w ymestyn i Clevedon yn y gogledd a Shepton Mallet yn y de, fel rhan o fenter ehangach i greu llwybr cylchog Gwlad yr Haf (Somerset Circle Route).

Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr yn ddi-draffig, heb unrhyw rannau serth. Mae'n mynd trwy amrywiaeth o dirweddau, o'r corsydd fflat a'r perllannau o afalau seidr yng nghyffiniau Yatton, ynghyd â dyffrynnoedd coediog serth, a thwnnel yn y Mendips, i dref hanesyddol Axbridge a Cheddar Gorge.

### FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Llwybr 17 cilomedr, y mae 83% ohono'n ddi- draffig, gyda chymysgedd o wynebau wedi'u selio a heb eu selio
- Mae lleoedd sy'n hurio beics, a busnesau mewn gorsafoedd rheilffordd a chanolfannau lleol, yn galluogi twristiaid i feicio ar hyd y llwybr, a cheir caffi cymunedol yng ngorsaf Yatton
- Mae'r gwaith i greu'r llwybr wedi cynnwys pwyntiau mynediad ychwanegol, arwyddion, goleuadau yn Nhwnnel Shute Shelve, diweddaru croesfannau ffyrdd, gwaith i reoli cynefinoedd, gan gynnwys bondocio, plannu gwrychoedd, plygu perthi ac adfer ffosydd
- Ers ei agor, datblygwyd y llwybr fesul tipyn i wella ei ansawdd, pa mor gyflawn ydyw, ynghyd â'i natur ddi-draffig. Mae'r gwelliannau hyn wedi cynnwys prynu tir trydydd parti i sefydlu llwybr di-dor.



© Malc Mcdonald, source geograph.org

Mae amryw randdeiliaid lleol yn cefnogi'r dyheadau i ymestyn y llwybr i greu llwybr 50 cilomedr di-draffig, parhaus, sy'n rhychwantu canolbarth Gwlad yr Haf, o Clevedon i Shepton Mallet. Bydd yn darparu gwell mynediad i ardaloedd cefn gwlad ar gyfer amrywiaeth o deithiau amlbwrpas, sy'n cysylltu poblogaeth o 70,000 o bobl gerllaw, yn ogystal ag at ddibenion hamdden a thwristiaeth.


© Shutterstock

## ...Buddion i'r economi leol o ran rhagor o ymwelwyr a nodweddion cyfleus i drigolion fel elfen werdd amgenach yn hytrach na char

— **Swyddog Datblygu Economaidd, Cyngor Dosbarth Sedgemoor**

### PERTHNASEDD A CHYFLEOEDD AR GYFER GLASFFORDD MÔN

- Mae'r Strawberry Line yn esblygu o fod yn llwybr cychwynnol i fod yn rhwydwaith cyswllt ehangach
- Canolbwyntio ar gyfleoedd economaidd cysylltiedig, gan gynnwys hurio beics, a darpariaeth o ran bwyd a diod
- Mae llwybr cychwynnol yn cael ei wella'n barhaus, a lle'n briodol, prynwyd tir trydydd parti i greu llwybr di-dor, o ansawdd uchel

# Costau a Chyllid Posib

Datblygwyd amcangyfrifon cychwynnol o'r costau ar gyfer y prosiectau cysyniadol gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol a chynseiliau. Mae'r tabl isod yn nodi'r costau a'r ffynonellau cyllid posib, ac wedyn nodir y rhagdybiaethau allweddol.

| Prosiect | Cost Amcangyfrifiedig |
|---|---|
| 1. Pont danffordd newydd yn Ffordd Stad Ddiwydiannol Llangefni | £380,000 |
| 2. Gwella cornel tanffordd yr A55 yn lle mae gwelededd yn wael | £90,000 |
| 3. Gwella'r groesfan ar wyneb yr A5 | £170,000 |
| 4. Dolen goll canol tref Llangefni | £300,000 |
| 5. Archwiliad o arwyddion y llwybr, ynghyd â'u had- drefnu a'u hadnewyddu | £180,000 |
| 6. Rhifyddion defnyddwyr ar y llwybr | £30,000 |
| 7. Llwybr gwell rhwng Niwbwrch a Phont Marcwis | £2,200,000 |

## COSTAU A BUDDION

Datblygwyd costau prosiectau 1-4 ar sail egwyddorion sylfaenol, trwy arolwg meintiau. Pennwyd graddfa prosiectau 5-7 ar sail y costau a nodwyd fel cynsail yn yr adroddiad 'Typical Costs of Cycling Interventions'[k] a luniwyd ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth yn 2017. Mae costau'r prosiectau'n amrywio, ac o'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r costau hyn yn sylweddol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o brosiectau tebyg mewn ardaloedd eraill yn awgrymu bod y gymhareb Budd a Chost, o safbwynt buddsoddi mewn cynlluniau o'r math hwn, yn uchel. Gwireddir buddion ar draws amryw feysydd, gan gynnwys trafnidiaeth, lles, yr economi leol a'r amgylchedd.

## CYLLID

Ceir amrywiaeth o opsiynau o ran cyllid y gellid eu hystyried ar gyfer Glasffordd Môn, gan gynnwys ffynonellau sy'n darparu cyllid ar gyfer trafnidiaeth, treftadaeth, twristiaeth, yr amgylchedd a'r dirwedd. Mae ffynonellau allweddol yn debygol o gynnwys cyllid Teithio Llesol a Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru, cyllid ar gyfer gwaith datblygu, cyllid Cymunedol y Loteri Genedlaethol, grantiau Coedwig Genedlaethol Cymru, a Chadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd. Hefyd, mae natur drawsbynciol Glasffordd Môn yn debygol o olygu ei fod yn gymwys ar gyfer cyfleoedd i gael cyllid ar raddfa fwy, a fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU. Wrth ystyried bob prosiect, bydd yn bwysig cael dealltwriaeth o raddfa'r cyllid y bydd ei angen, ynghyd â ffynonellau cyllid posib, yn ogystal â'r prosesau a'r amserlenni ar gyfer y dyfarniadau cyllid hynny. Gall ystyried y ffactorau hyn sicrhau bod y cyllid mwyaf priodol yn cael ei dargedu ar gyfer bob prosiect, neu y gellid datblygu pecynnau o brosiectau, lle bo hynny'n briodol.

**13:1**

**13:1 yw'r 'Gymhareb Budd a Chost' ar gyfer prosiectau cerdded a beicio. Mae hyn yn golygu, ar gyfer bob £1m a gaiff ei wario ar gerdded a beicio, caiff £13m o fuddion eu dychwelyd i'r economi**

Department for Transport, 2015[a]

# Cyflenwi Prosiectau

Bydd angen gwneud rhagor o waith datblygu i gyflenwi'r prosiectau. Mae'r tabl isod yn nodi'r camau allweddol nesaf ar gyfer y prosiectau hyn, ynghyd â'r amserlenni posib o ran eu cyflenwi, yn ôl yr hyn a ddeallir ar hyn o bryd. Ystyrir bod modd cyflenwi prosiectau sy'n darparu atebion cyflym ('quick win') o fewn chwe mis, gellir cyflenwi rhai tymor byr o fewn blwyddyn, a rhai tymor canolig o fewn dwy flynedd.

| Prosiect | Ymgynghori â Rhanddeiliaid | Cymeradwyaeth | Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd | Effaith ar Gyfleustodau | Tir Trydydd Parti | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Pont danffordd newydd yn Ffordd Stad Ddiwydiannol Llangefni | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | Tymor Canolig |
| 2. Gwella cornel tanffordd yr A55 yn lle mae gwelededd yn wael | | ✓ | ✓ | | | Tymor Byr |
| 3. Gwella'r groesfan ar wyneb yr A5 | | ✓ | | | | Atebion Cyflym |
| 4. Dolen goll canol tref Llangefni | ✓ | ✓ | | ✓ | | Tymor Byr |
| 5. Archwiliad o arwyddion y llwybr, ynghyd â'u had- drefnu a'u hadnewyddu | | ✓ | | | | Tymor Canolig |
| 6. Rhifyddion defnyddwyr ar y llwybr | | ✓ | | | | Atebion Cyflym |
| 7. Llwybr gwell rhwng Niwbwrch a Phont Marcwis | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | Camau Nesaf |

# Camau Nesaf

Mae'r weledigaeth ar gyfer Glasffordd Môn, ynghyd â'r buddion y gall eu cyflenwi i gymunedau, ac o safbwynt teithiau lleol/teithio i'r gwaith, ymwelwyr a bywyd gwyllt, yn amlwg. Mae gwaith diweddar a datblygu prosiectau cychwynnol wedi canolbwyntio ar y rhan ddeheuol o Niwbwrch i Lyn Cefni, y mae llawer ohono'n ymwneud ag uwchraddio llwybr presennol Lôn Las Cefni a ddefnyddir yn helaeth. Man cychwyn y llwybr cyflawn ar draws yr ynys yw hwn a fydd, yn y pen draw, yn rhwydwaith o goridorau gwyrdd o ansawdd uchel, sy'n darparu cysylltiadau i gymunedau, ymwelwyr a bywyd gwyllt ar draws Ynys Môn.

Hyd yma, mae'r Grŵp Llywio wedi arwain y gwaith o ddatblygu a chyflenwi prosiectau cychwynnol. Ond i ddatblygu Glasffordd Môn ymhellach, bydd angen gweithio gyda'r gymuned leol, tirfeddianwyr, rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys yr asiantaeth cefnffyrdd NMWTRA, Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB a Dŵr Cymru), ynghyd â set ehangach o sefydliadau (e.e. ym maes twristiaeth, busnesau lleol, cadwraeth a bywyd gwyllt, y sector addysg, llywodraeth leol a chenedlaethol) y byddai eu cyfraniad ar ddechrau'r prosiectau'n gwneud y gorau o fuddion at y dyfodol. Mae'r cyfraniad hwn yn fwyaf perthnasol i'r ystyriaethau ehangach a fydd yn ennyn cefnogaeth ar gyfer y llwybr cyfan, ac yn dangos y gefnogaeth honno. Bydd yn ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth o'r llwybr, ynghyd â dyheadau at y dyfodol, trwy farchnata, brandio a gweithio gyda sefydliadau sy'n ymwneud hybu cyfleoedd hamdden a thwristiaeth.

O ran y saith prosiect cysyniadol a nodir o fewn y ddogfen hon, bydd y gost o ran darparu isadeiledd yn dod i gyfanswm o tua £3.5m. Ond bydd cyflenwi'r uchelgais ar gyfer Glasffordd Môn - a fydd yn cynnwys ymestyn y llwybr, ynghyd ag agweddau ehangach fel rheoli tir, yn costio llawer mwy. Bydd angen i randdeiliaid gydweithio i ddefnyddio'r achos strategol a luniwyd i ddiogelu cyllid gan ffynonellau a nodwyd, ac a ddaw i'r amlwg. Trwy weithio mewn partneriaeth ac ymgynghori, bydd modd hyrwyddo'r achos dros fuddsoddi yn y llwybr trwy ddarparu tystiolaeth o'r hyn a gyflenwir, y cyfrifoldebau, a buddion prosiectau cychwynnol.

# Cyfeiriadau a Dolennau


a - Walking and cycling: the economic benefits, TfL
https://content.tfl.gov.uk/walking-cycling-economic-benefits-summary-pack.pdf

b - Adroddiad Cynnig Glasffordd Môn ar gyfer Menter Môn, Mawrth 2021, Michael Chown

c - Gan fod Afon Cefni wedi'i dynodi'n brif afon a oedd wedi gorlifo yn 2017, mae'r gwaith yn debygol o fod yn destun gofynion Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP) https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/flood-risk-activity-permits/?lang=en Trwydded yw hon, a ddarperir gan CNC, i sicrhau nad yw elfennau fel cadernid adeileddol amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn cael eu peryglu. O ran unrhyw ostyngiad yn arwynebedd trawstoriadol sianelau dŵr, rhaid eu hasesu ar gyfer unrhyw effeithiau o safbwynt merddwr. Gellir gwella'r modd y mae'r dŵr yn llifo trwy'r adeiledd, ond bydd angen asesu hyn. Gellir ystyried presenoldeb y groesfan reilffordd bresennol i fyny'r afon mewn unrhyw asesiad a lunnir i gefnogi unrhyw gais.

d - Cais i symud pibellau Dŵr Cymru (carthffosydd neu brif gyflenwadau dŵr) trwy geisiadau ar wahân i'w Tîm Gwasanaethau Datblygwyr:-
Carthffosiaeth - https://developers.dwrcymru.com/en/applications/waste-connections/diverting-altering-abandoning-a-public-sewer
Prif Gyflenwadau Dŵr - https://developers.dwrcymru.com/en/applications/water-connections/diverting-altering-or-abandoning-a-water-main

e - Mae adran 9.14 'Dimensiynau gweledeedd ar lwybrau beicio' o'r Canllawiau Dylunio ar Gyfer Teithio Llesol yn awgrymu "gwelededd ymlaen" ("forward visibility") ar gyfer "cyflymder dylunio" ("design speed") o 20cya: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf

f - Gan y lleolir y gwaith o fewn gorlifdir, a'i fod yn debygol o effeithio'r afon, bydd angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) i sicrhau bod y cynigion yn dderbyniol o dan Nodyn Cyngor Technegol 15 (NCT15). Efallai y bydd angen gwneud gwaith ar fodelu llifogydd fel rhan o'r FCA i asesu'r risgiau o ran llifogydd sy'n ymwneud â'r gwaith a'i effaith gysylltiedig.

g - Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2021: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol.pdf
- Croesfannau syml nad ydynt yn cael eu rheoli (cerdded, cyd-ddefnyddio neu feicio yn unig) DE606

h - Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2021: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol.pdf
- Arwyddion, adran 14.7

i - Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2021: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol.pdf
Dylunio ar gyfer llwybrau a chysylltiadau teithio llesol:
- Strydoedd tawel DE205
- Strydoedd beiciau DE206
- Llwybr cyd-ddefnyddio i feicwyr a cherddwyr, oddi wrth y ffordd DE403
- Croesfannau cyfochrog i gerddwyr a beicwyr DE611

j - Social return on investment analysis of an urban greenway, Ruth F. Hunter et al, Canolfan Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Queen's Belfast https://www.connswatergreenway.co.uk/sites/default/files/Hunter_SROI_Cities&Health_accepted.pdf

k - Typical Costs of Cycling Interventions, Ian Taylor a Beth Hiblin https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742451/typical-costings-for-ambitious-cycling-schemes.pdf



GLASFFORDD MÔN

MENTER MÔN

Dŵr Cymru
Welsh Water

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

ymholiadau@mentermon.com
01248 725 700

Menter Môn Cyf, Neuadd Y Dref Llangefni, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Ynys Môn LL77 7LR

ARUP